# Sesiynau blasu'r iaith

Sesiwn flasu hwyliog a chyfeillgar o dan ofal Llion Williams. Cyfle i ymwelwyr â'r ardal gael dysgu ychydig eiriau ac ymadroddion Cymraeg.

**11yb-12.30yp pob dydd Llun, Mawrth a Mercher rhwng Awst 14fed—Medi 6ed:**

- Dydd Llun a Mercher—cyfarfod ym Mhorth y Swnt, Aberdaron.
- Dydd Mawrth—cyfarfod yn Nant Gwrtheyrn, Llithfaen.

£4 oedolion/ £2 plant / £10 teulu



# Taith bws ardal Aberdaron

Dewch i deithio ar hyd rhai o lwybrau'r pererinion i ddarganfod uchafbwyntiau hanesyddol yr ardal, straeon lleol, golygfeydd bendigedig ac atyniadau'r fro.

**2-5yp pob dydd Llun a Mercher rhwng Awst 14fed—Medi 6ed (ac eithrio dydd Llun gŵyl y banc)**

£10 oedolion / £5 plant. Yn cynnwys paned neu ddiod oer. Bws i gychwyn o Porth y Swnt, Aberdaron. Llefydd cyfyngedig, archebwch eich lle ym Mhorth y Swnt- 01758 703810. Taliad trwy arian parod yn unig.



# Taith bws ardal Nant Gwrtheyrn



Teithio i galon ardal Llŷn a darganfod rhai o atyniadau diwylliannol poblogaidd yr ardal a dysgu am hanes modern yr ardal gyfoes Gymreig hon.

**2-5yp pob dydd Mawrth rhwng Awst 14fed—Medi 6ed**

£10 oedolion / £5 plant. Yn cynnwys paned neu ddiod oer. Bws i gychwyn o Plas Heli, Pwllheli. Llefydd cyfyngedig, archebwch eich lle ym Mhlas Heli- 01758 613343. Taliad trwy arian parod yn unig

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

nant gwrtheyrn

Rhif Elusen 1098057

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Aberdaron